

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 8fed Mai, 2017**

**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin (Cadeirydd), Cyng. Eifion Williams, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. John Owen, Cyng. Mike Rayner, Cyng. Alun Morris, Cyng. Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Dewi Wynne Jones

**DATGANIAD DERBYN SWYDD**

Cwblhaodd aelodau'r cyngor y ffurflen 'Datganiad Derbyn Swydd' ar iddynt gael eu hethol yn yr etholiadau mis Mai 2017.

**COD YMDDYGIAD**

Cadarnhaodd pob aelod o'r cyngor drwy godi ei dwylo i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad y Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n nodi safonau cywir o ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr ac maent i gyd yn cytuno i gydymffurfio a'r Cod fel unigolion.

**COFRESTR BUDDIANNAU**

Cwblhawyd cofrestr buddiannau aelodau'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

**Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain Mawrth 2017.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**CAE CHWARAE MAENAN**

Nododd Cyng. John Owen a Cyng. Mike Rayner eu bod am wneud trefniadau i osod canllaw yng Nghae Chwarae Maenan pan fydd y tywydd yn caniatáu.

**MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Cyng. John Owen bod yn edrych ar y ffens o amgylch y maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan, mi fydd yn gosod ambell i bolyn i gryfhau'r ffens pan fydd tywydd yn caniatáu.

**CYNNAL A CHADW MIS MAWRTH**

1. Angen atgyweirio wal y bont ym Mhont Garth, Maenan.  
Nododd Cyng. Austin Roberts ei fod wedi cysylltu gyda'r adran pontydd. Cadarnhawyd yr Adran fod Pont y Garth ar ei amserlen cynnal. Nodwyd hefyd mae gwaith mân o ran natur sydd angen ar y wal a bydd yr adran yn ymateb o ran blaenoriaeth ei gwaith arferol ac o ran y gyllideb ariannol.
2. Tyllau yn y ffordd rhwng Croesfordd a throeau Pen y Bryn, Llanddoged.  
Y gwaith o lenwi'r tyllau ar y ffordd rhwng Groesfordd a throeau Pen y Bryn wedi ei gwblhau.
3. Cais gan berchennog 1 Maes Gwyn, Llanddoged gael cadarnhad pwy sydd yn berchen y ffens wrth yr arhosfa bws ym Mhentref Llanddoged.  
Cyng Austin Roberts wedi cael gair gydag Adran Eiddo, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac maent wedi cadarnhau mae perchennog 1 Maes Gwyn sydd yn berchen ar y ffens wrth yr arhosfa bws yn Llanddoged ac nid Cyngor Conwy.

## **GOSOD CAMFA NEWYDD AR LWYBR RHIF 5 WRTH TYN Y CELYN, MAENAN**

Cadarnhaodd Cyng. Hefin Martin fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gosod y gamfa ar lwybr cyhoeddus rhif 5.

## **Y GYLLIDEB A CHYMERADWYO'R CYFRIFON**

Nododd y clerc fod yr Archwilydd Mewnol Mrs Iona Edwards (Cyfrifydd o Lanrwst) wedi archwilio'r cyfrifon sydd yn diweddu Mawrth 31ain, 2017 ac wedi eu canfod yn gywir.

Cymeradwyodd aelodau'r Cyngor y cyfrifon sydd yn diweddu Mawrth 31ain, 2017 drwy godi ei dwylo a bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen i'r archwilydd allanol sef BDO.

## **Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb am y flwyddyn 2017/18 yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen Banc yn ôl yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

## **MAINC SEFYDLIAD Y MERCHED LLANDDOGED**

Cafwyd adroddiad gan Mrs Kathy Roberts Cadeirydd Sefydliad y Merched Llanddoged ar y problemau y maent wedi ei wynebu drwy gael gosod y fainc yng Nghae Cetyn, Llanddoged. Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy angen £200 i osod y fainc yn ei lle yng Nghae Cetyn ac nid ydi'r sefydliad yn gallu ariannu'r gost yma.

Trafodwyd y mater ymysg aelodau'r Cyngor a phenderfynwyd a phasiwyd i ofyn i Mrs Kathy Roberts anfon y cais ymlaen at Elusen Penrhiw I ofyn am gymorth ariannol.

## **COD YMDDYGIAD**

Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n nodi safonau cywir o ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr ac maent i gyd yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod fel unigolion

## **GOHEBIAETH**

1. Aon Insurance – Yswiriant y Cyngor - £345.49.
2. Llythyr gan Michelle Jones, 3 Maes Gwyn, Llanddoged – Llythyr cwyn yn erbyn Mr Gareth Jones, 2 Maes Gwyn yn cadw ieir yn ei ardd gefn ac yn creu drewdod ac yn swnllyd iawn. Pryder fod llygod mawr yn croesi ei thir at y cytiau ieir.

Trafodwyd y mater a phasiwyd i gysylltu gyda Mrs Michelle Jones i awgrymu iddi gysylltu gyda'r Adran Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn iddynt edrych i mewn i'r sefyllfa.

## **CYNNAL A CHADW**

1. Tair mainc eistedd angen ei glanhau dwy yng Nghae Cetyn ac un ym Mhenrhiw, Llanddoged. Pasiwyd i ofyn i Mr Elwyn Williams am amcangyfrif y gost o lanhau'r meinciau.
2. Diffibiliwr i ardal Maenan- Cafwyd cais i holi BT i gael caniatâd i fabwysiadu blwch ffon wrth y Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan er mwyn cael gosod diffibiliwr yno.  
Y Clerc i gysylltu gyda BT am ragor o fanylion.
3. Bwrdd Picnic i Gae Chwarae Maenan- Cais gan Cyng. Hefin Martin i gael bwrdd picnic ychwanegol i Gae chwarae Maenan. Tynnwyd un o'r byrddau picnic yn ddiweddar gan eu bod wedi ydru a ddim yn ddiogel i eistedd arno